**AMODAU SAFLE DICKIES – C17/1086/11/LL**

1. Yn ddarostyngedig i gydymffurfiaeth lawn gyda'r Strategaeth Trin Llysia'r Dial dyddiedig 28ain Medi 2018, amserlen triniaeth ddisgwyliedig yr ymgeisydd dyddiedig 12fed Hydref 2018 ac yn unol ag anghenion amod '21', rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o leiaf 14 diwrnod cyn ailgychwyn datblygiad sy'n golygu adeiladu'r Rip Rap amddiffyn môr. Rhaid i oll waith adeiladu, mewnforio deunyddiau ac adeiladu Rip Rap amddiffyn môr yn unol â chynlluniau a manylion y cais ddod i ben o fewn naw mis o rybudd cychwyn y datblygiad, neu o fewn 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn, p'run bynnag sy'n gynharach. Rhaid clirio'r safle o'r oll offer a pheiriannau, cyfarpar, deunyddiau, adeiladau, strwythurau a phalisau pren erbyn y dyddiad hwnnw. Rhaid cychwyn adfer y safle wedi hynny o fewn tair blynedd o ddarfyddiad y datblygiad yn unol ag anghenion amod 18 o'r caniatâd hwn, oni chaniatawyd cais pellach i ddatblygu'r tir.

2. Oni bai fod amod cynllunio yn gofyn am hynny, rhaid gweithredu mesuriadau yn unol â manylion Cynllun Rheoli'r Amgylchedd Adeiladu wedi'i diweddaru sydd i'w gyflwyno er cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflwyno rhybudd o ailgychwyn y datblygiad yn unol ag amod 1 o'r caniatâd hwn. Fydd y Cynllun Rheoli'r Amgylchedd Adeiladu'n sicrhau ymarferiad da a mesuriadau lliniaru i ddiogelu'r amgylchedd ddŵr gan gynnwys, amodau gwaith ar y safle a mesuriadau i reoli effeithiau amgylcheddol megis symudiadau HGV, cyfarpar golchi olwynion, gorchuddio cerbydau cludo, ardaloedd storio diogel, ansawdd aer, oriau gwaith, sŵn/dirgryniad, rheoli gwastraff a llygredd. Hefyd, monitro dŵr ffo ddichonol o ardaloedd gweithredol i liniaru ar gyfer yr effaith amgylcheddol bosib o'r datblygiad & threfniadau sbils.

3. Rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu yn hollol unol â chynlluniau, lluniadau a manylion y cais a restrwyd isod, y wybodaeth gefndirol a gyflwynwyd gyda'r cais derbyniwyd ar 9fed Tachwedd 2017, ac yn unol â'r cynlluniau canlynol neu unrhyw fanylion eraill a gymeradwywyd wedi hynny mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol;

- *'3475-2 201G Cross Sections & Specification for Rip Rap Armour Protection',* derbyniwyd ar 10fed Hydref 2018,
- *'3475-2 210G Headland Area of fill Section 73 Application',* derbyniwyd ar 10fed Hydref 2018,
- *'3475-2 212A Cross Sections G-G to I-I Section 73 Application',* derbyniwyd ar 10fed Hydref 2018,
- *'3475-2 214A Proposed Site Cross Sections F-F',* derbyniwyd ar 10fed Hydref 2018,
- *'KQ03-16-223-001 Dickies Boatyard, Bangor Plant/Material Access for RPC Construction Works',* derbyniwyd ar 2il Chwefror 2018,
- *'Location Plan L.00 P1',* diwygiedig derbyniwyd ar 2il Chwefror 2018.

4. Rhaid cynnwys mesuriadau ar gyfer gwella bioamrywiaeth o fewn dyluniad y cynllun yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 2il Chwefror 2018 dan gyfeirnod C17/1203/11/AC.

5. Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw, ni chaniateir mewnforio dim mwy na 7,500 tunnell o ddeunyddiau at ddibenion y datblygiad a ganiateir. Rhaid i'r datblygwr roi rhybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o leiaf 14 diwrnod cyn cychwyn a chwblhau cludiant ac ni chaniateir cludo dim mwy na 960 tunnell o ddeunydd i'r safle mewn wythnos ar uchafswm raddfa o ddim mwy na 8 llwyth y diwrnod. Rhaid gofalu bod ffigyrau cludo deunyddiau i'r safle dros unrhyw gyfnod penodedig ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gais, o fewn 14 diwrnod. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn trin y fath ffigyrau yn gyfrinachol.

6. Ac eithrio mewn argyfwng neu gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ni chaniateir unrhyw waith a awdurdodwyd neu sy'n ofynnol dan y caniatâd hwn, gan gynnwys rhedeg peiriannau ac mewnforio deunyddiau ar wahân i'r oriau canlynol rhwng:
    a. 08.00 a 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener,
    b. 08.00 a 13.00 Dydd Sadwrn,
    c. Ni chaniateir gweithgareddau'r safle ar y Sul na Gwyliau Banc sy'n ymglymu unrhyw o'r defnyddiau sydd wedi'u darnodi dan yr amod yma.

7. Defnyddir y dulliau ymarferol gorau ac/neu osod larymau 'white noise' i beiriannau symudol a cherbydau ar y safle.

8. Ni chaniateir defnyddio unrhyw offer ar y safle onid bod sustemau atal llwch effeithiol a gweithredol wedi eu gosod arnynt, sydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd i arbed gollwng llwch i'r amgylchedd. Rhaid gosod gorchudd priodol dros bob cerbyd llwythog yn gadael y safle neu'u trin fel bo angen i atal gollwng llwch i'r amgylchedd.

9. Ni chaniateir unrhyw waith ar y safle fydd yn achosi codi llwch gwasgaredig a rhaid dyfrio pentyrrau stoc gwastraff a phob ardal lle bydd cerbydau olwyn yn teithio arnynt wrth symud defnyddiau, neu eu trin pryd bynnag fydd angen i arbed codi llwch o'r fath.

10. Rhaid cadw wyneb y fynedfa i'r safle yn rhydd o fwd a llanastr arall, a'i chynnal bob amser mewn cyflwr sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn gofalu yr atelir mwd a llanastr rhag cael ei ollwng ar y briffordd gyhoeddus. Rhaid lleoli cyfarpar golchi olwynion cyn cychwyn y datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar 5$^{ed}$ Mai 2017 dan gyfeirnod C17/0346/11/AC. Rhaid i'r cyfarpar fod yn weithredol wedi hynny drwy gydol oll weithrediadau cludiant yn gysylltiedig â'r datblygiad.

11. Oni chytunir fel arall mewn ysgrifen, cyflwynir manylion lleoliad, dyluniad, synwyryddion a goleuder o'r llifoleuadau (sydd i'w dylunio i leihau'r potensial o ymyrraeth gollyngiad golau ar eiddo cyfagos a phriffyrdd) er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir drwy hyn.

12. Trwy gydol cyfnod gwaith y safle, rhaid gwneud darpariaeth yn ôl y galw i gasglu, trin a gwaredu pob dŵr sy'n dod i mewn neu'n codi ar y safle i sicrhau na fydd draeniad llygredig neu drwytholch yn cael ei ollwng o'r safle i mewn i gwrs dŵr neu unrhyw ddŵr wyneb, naill ai yn syth neu drwy ffos gerrig. Ni chaniateir i unrhyw ddefnydd beri rhwystr i unrhyw gwrs dŵr neu gylfat na pheri iddynt gael eu herydu gan unrhyw gwrs dŵr dan unrhyw amgylchiadau. Rhaid gweithredu rhaglen o fonitro dŵr, i gynnwys cynllun samplu a dadansoddi, drwy gydol y datblygiad yn unol â'r fethodoleg amlinellir ar gyfer monitro dŵr wyneb yn Atodiad '3' ynghlwm i'r caniatâd hwn Rhaid cyflwyno canlyniadau dadansoddiad samplu dŵr i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer unrhyw gyfnod o fewn 14 diwrnod o gais ysgrifenedig.

13. Rhaid trin a chadw unrhyw olew neu danwydd a ddygir i'r safle mewn modd fydd yn rhwystro llygredd i unrhyw gwrs dŵr neu ddyfrhaen. Rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth blaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dyluniad a lleoliad unrhyw gyfleusterau storio tanwydd a chynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer tanciau a chynwysyddion addas a amgaeir â waliau bwnd sydd yn ddigon uchel ac o adeiladwaith fydd yn medru cynnwys 110% o gyfanswm cynnwys y cynwysyddion a'r pibellau perthynol. Rhaid gofalu bod waliau a lloriau'r man hwnnw o fewn y waliau bwnd yn dal dŵr ac olew. Rhaid gofalu bod pibellau awyru yn cyfeirio at i lawr yn y man hwn.

14. Rhwng yr oriau 8.00 a 18.00 ni ddylai lefel y sŵn o'r datblygiad fod yn uwch na 55dB LAeq, 1 awr, maes rhydd wedi ei fesur yn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn cyfagos.

15. Dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am unrhyw waith dros dro all fod yn uwch na'r lefelau a osodir uchod, ac ni ddylent fod yn uwch na 67 dB LAeq, 1 hour, maes rhydd, a fynegir yn yr un dull a'r uchod yn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn. Ni ddylai sŵn gwaith fod yn uwch na'r terfynau sen a osodir uchod yn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn am fwy nac 8 wythnos mewn unrhyw gyfnod 6 mis heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni ddylid gwneud gwaith dros dro y tu allan i'r oriau 08.00 i 18.00 ac eithrio mewn argyfwng.

16. Os yw'r awdurdod yn ystyried nad yw'r sŵn o'r safle o fewn y cyfyngiadau sŵn, bydd yr ymgeisydd mewn ymateb i ddymuniad yr awdurdod cynllunio lleol, yn cynnal arolwg sŵn i gynnwys mesuriadau LAeq (1 Awr) ac yn cyflwyno manylion am y mesuriadau sŵn i'r awdurdod o fewn 10 diwrnod i'r dymuniad. Rhaid cytuno o flaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol lleoliadau arolwg sŵn a dylid ymweld â phob lleoliad a chymryd mesuriadau dwywaith yn ystod pob arolwg (gall yr ymweliadau fod yn olynol yn yr un lleoliad neu ar ddau leoliad gwahanol ar yr un ffasâd). Rhaid gweithredu ar gamau lliniaru os aiff lefel y sŵn yn uwch na lefel penodol a chynnwys cynllun o welliannau i leihau sŵn o'r datblygiad i'w gytuno wedi hynny mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

17. Rhaid i'r mesuriadau a gymerir i wireddu cydymffurfiaeth ag amod 15, 16 ac 17 ddilyn canllawiau a fanylir yn Safon Brydeinig 4142:2014. Cyfeirir yn arbennig at fanyleb yr offer, dull mesur a materion i'w cofnodi.

18. Cyn cyflwyno rhybudd o ailgychwyn y datblygiad yn unol ag amod 1 o'r caniatâd hwn, rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, cynllun adfer ac ôl-ofal ar gyfer y safle,. Fydd ei strategaeth wedi'i selio ar ddarganfyddiadau'r adroddiad ecolegol cyf. 'RT-MME-126872-02-Rev D' dyddiedig Ebrill 2018 a gyflwynwyd gyda'r cais ac yn cynnwys manylion y gwaith adfer, modelu'r ffurf tir a chynllun reoli bioamrywiaeth i adnabod ardaloedd i'w gwarchod er mwyn adfer a chreu cynefin bywyd gwyllt. Yn fwy penodol, rhaid i'r cynllun adfer a rheoli bioamrywiaeth gynnwys;
    i. Trin gwyneb y safle mewn modd i sicrhau bod llystyfiant naturiol sy'n nodweddiadol o rywogaethau'r ardal yn ailsefydlu yno,
    ii. Hadu/plannu rhywogaethau addas o lystyfiant a blodau gwyllt sydd yn nodweddiadol o'r ardal gyfagos,
    iii. Mesuriadau ar gyfer gwella cynefin rhydwyr ac adar eraill gan gynnwys cynllun ôl-ofal 5 mlynedd,
    iv. Ôl-ofal ar gyfer Rhywogaethau Planhigion Ymledol Anfrodorol.

19. Bydd y gwaith adfer yn ddarostyngedig i gynllun ôl-ofal a monitro pum mlynedd a rhaid ei gyflawni i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi darfod gwaith adfer. Er osgoi unrhyw amheuaeth, fydd y ddarpariaeth ôl-ofal yn gymwys am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y gwaith adfer terfynol.

20. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau gweithredu'r mesuriadau lliniaru canlynol cyn ac yn ystod gwaith datblygu'r safle;
    i. Dim gwaith paratoi'r safle, arllwys/gosod deunyddiau, gwaith codi lefelau neu gwaith adeiladu'r morglawdd awr a hanner cyn ac ar ôl llanw uchel rhwng 30ain Medi a'r 1af Mawrth mewn a unrhyw flwyddyn (cyfanswm o 3 awr),

*ii.* Adroddiad monitro ecolegol cyn ac yn ystod gweithrediadau'r safle i'w gyflwyno ar ddymuniad ysgrifennedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau na fydd unrhyw ymyrraeth ar adar sy'n clwydo neu nythu. Rhaid i'r adroddiad gynnwys;

- Monitro'r adar sy'n nythu bob wythnos fel corhedydd y graig ac adar hirgoes sy'n clwydo a phorthi tra bod gwaith yn digwydd,
- Monitro adar hirgoes yn ystod llanw uchel rhwng 30 Medi a 31 Mawrth, tra bod gwaith yn digwydd gydag adroddiad wythnosol i'w ddarparu ar gyfer yr ACLl i gynnwys cofnodion dyddiol o nifer yr adar hirgoes a'r lleoliadau lle maent yn clwydo,
- Gweithredu amserlen waith sy'n manylu ar y cyfnodau gwaith cyfyngedig dyddiol o amgylch llanw uchel.

21. Rhaid trin Llysia'r Dial yn unol â'r Strategaeth Trin Llysia'r Dial diwygiedig a dderbyniwyd ar 18fed Hydref 2018 ac yn unol â'r anghenion canlynol;
    - Cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad pellach ar y safle, rhaid cyflwyno adroddiad ddilysu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol sydd wedi'i ardystio gan ymgynghorydd annibynnol fod y rhaglen trin Llysia'r Dial wedi bod yn llwyddiannus a bod yr holl ddeunydd planhigyn ymledol wedi cael ei ddileu ac fod yr oll ardaloedd sydd wedi'u trin yn ddarostyngedig ôl-ofal a monitro yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd,
    - Dylai defnydd o beiriannau trac ar y safle fod yn gyfyngedig cymaint â phosib hyd nes bod yr ardaloedd sy'n heigiannus o Lysia'r Dial wedi eu clirio neu wedi eu cau ffwrdd. Os oes rhaid defnyddio peiriannau trac mewn parthau heigiannus, rhaid defnyddio geotextile sydd wedi'i orchuddio â chraidd caled fel sylfaen ar gyfer cerbydau i deithio.

22. Pe derfydd y gwaith cloddio mwynau yn gynamserol neu os na chwblheir y datblygiad yn unol â chynlluniau'r cais, dylid cyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol cynllun adfer ddiwygiedig ar gyfer y safle o fewn 12 mis o rybudd cychwyn yn amod, i gynnwys cynlluniau & thoriadau o'r lefelau diwygiedig, y manylion adfer a gyflwynwyd yn unol ag amod 18 ac yn unol â'r canlynol;
    i. Unrhyw waith peirianyddol, gwaith adfer neu fewnforio cerrig/deunydd amddiffyn môr ac agreg i fynd i'r afael â sadrwydd y cap llechi,
    ii. Monitro ar gyfer adar hirgoes yn ystod unrhyw waith peirianyddol a weithredwyd rhwng Medi a Mawrth.

    Dylid adfer y safle wedi hynny yn unol â'r cynllun diwygiedig ymhen 12 mis i'w gymeradwyo.

<u>RHESYMAU</u>

1. Lleihau'r cyfnod tarfu i'r eithaf a achosir gan y datblygiad a ganiateir yma gan ofalu yr adferir y safle.
2. Er budd diogelu'r amgylchedd ac mwynderau'r ardal
3. Er budd mwynderau gweledol yr ardal
4. Er budd bioamrywiaeth yr ardal
5. Er budd diogelwch y briffordd, mwynderau yr ardal ac i leihau'r cyfnod tarfu i'r eithaf a achosir gan y datblygiad
6. Er budd mwynderau yr ardal
7. Er budd mwynderau yr ardal

8. Er budd diogelu'r amgylchedd ac mwynderau'r ardal

9. Er budd diogelu'r amgylchedd ac mwynderau'r ardal

10. Er lles diogelwch y briffordd

11. Er budd mwynderau yr ardal

12. Arbed llygredd yr amgylchedd dwr lleol a charthffosydd cyhoeddus

13. Diogelu ansawdd dyfrffosydd lleol

14. Er budd mwynderau yr ardal

15. Er budd mwynderau yr ardal

16. Er budd mwynderau yr ardal

17. Er budd mwynderau yr ardal

18. Gofalu yr adferir y safle'n briodol er budd hybu bioamrywiaeth yr ardal

19. Gofalu yr adferir y safle'n briodol er budd hybu bioamrywiaeth yr ardal

20. Er budd bioamrywiaeth yr ardal

21. Er budd diogelwch yr amgylchedd ac i atal ymlediad Llysia'r Dial

22. Gofalu yr adferir y safle'n briodol ar achlysur darfod cynamserol neu ar adawiad y gwaith

**Wrth ystyried y cais yma roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y polisiau a rhestrir isod yn berthnasol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015- Llywodraeth Cymru,
- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol (TAN 5), (TAN 11), (TAN 15), (TAN 18) & (TAN 23) - Llywodraeth Cymru,
- Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9: Tachwedd 2016 - Llywodraeth Cymru,
- Cynllun Rheoli Traethlinau Gorllewin Cymru 2011,
- Polisiau Strategol *PS 5, PS 6, PS 13, PS 19,* Polisiau *AMG 3, AMG 4, AMG 5, AMG 6, AT 1, ARNA 1, CYF 7, PCYFF 1, PCYFF 2, PCYFF 3, TRA 4* Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011–2026.

**Nodyn i'r Ymgeisydd**

- Byddwch cystal â nodi'r ymatebion i ymgynghoriad ynghlwm a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Atodiad 1) a Gwasanaeth Rheoli Risg Llifogydd a Erydiad Arfordirol Cyngor Gwynedd (Atodiad 2), a dylid eu cysylltu'n uniongyrchol ran rheolaethau gweithredol penodol o fewn eu hawdurdod ac/neu unrhyw hawliau neu drwyddedau ychwanegol sydd angen cyn cychwyn y gwaith.

- Mae'r cais yma wedi'i asesu'n unol â'r saith nôd llesiant o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Mae'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd dilynol parthed datblygu a defnyddio diogel y safle yn gorffwys gyda'r datblygwr ac/neu tirfeddiannwr. Er bod yr awdurdod cynllunio gwastraff wedi gwneud yr ymdrech orau i benderfynu'r cais ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo, nid yw hyn yn golygu bod y tir yn rhydd o ansefydlogrwydd a llygredd.